GWEITHGAREDDAU CYMUNEDOL AR GYFER BIOAMRYWIAETH

Mae Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Sir Gaerfyrddin yn cynnig grantiau o hyd at £1500 i gefnogi Gweithgareddau Cymunedol ar gyfer Bioamrywiaeth. Nod y grant yw helpu i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o bwysigrwydd bioamrywiaeth ac i gefnogi gweithgareddau cymunedol cysylltiedig.

Os oes gennych syniad am brosiect ac yr hoffech wneud cais, llenwch y ffurflen gais amgaeedig.

I wneud cais am y grant hwn ac am gyngor a chymorth ynghylch eich syniad am brosiect, cysylltwch â mcollinson@sirgar.gov.uk

Cyflwyniad:

Rhaglen Llywodraeth Cymru yw **Lleoedd Lleol ar gyfer Natur**, gyda'r nod o greu a chefnogi prosiectau i adfer a gwella natur mewn cymunedau lleol. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar ardaloedd o amddifadedd uchel a'r rhai sydd heb lawer o fynediad at natur yng Nghymru, yn enwedig mewn amgylcheddau trefol ac o gwmpas trefi.

Ar draws Sir Gaerfyrddin, mae amrywiaeth o brosiectau'n cael eu cyflawni mewn partneriaeth â'r Cyngor Sir a'r Bartneriaeth Natur Leol, gan weithio gydag ystod eang o sefydliadau, grwpiau ac unigolion yn y gymuned i ddatblygu partneriaethau cryf a rhwydweithiau cynaliadwy ar gyfer adfer natur.

Efallai na fyddwn bob amser yn ei werthfawrogi, ond mae ein llesiant yn dibynnu ar iechyd yr amgylchedd naturiol. Os ydym am amddiffyn a'i adfer yn llwyddiannus, mae angen cynllun da arnom ac mae angen i ni weithio gyda'n gilydd i'w gyflawni.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y cynllun Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Sir Gaerfyrddin yma.

Amcanion y Grant:

1/. Gellir defnyddio'r grant hwn i ariannu gweithgareddau prosiect sy'n seiliedig ar natur, fel:

- darparu digwyddiad/gweithgaredd cyhoeddus a fydd yn helpu i wella bioamrywiaeth ardal
- cyflawni neu dderbyn sesiynau hyfforddi gwirfoddolwyr
- creu deunydd hyrwyddo neu weithgareddau artistig sy'n ymwneud â bioamrywiaeth.

Gallwch gyfuno gwahanol elfennau o'r math hwn o weithgaredd fel rhan o gynnig eich prosiect.
Gall y grant hwn dalu costau gweithgarwch y prosiect, ond nid oes modd ei ddefnyddio i brynu offer / seilwaith cyfalaf ac ati. Os oes angen eitemau o'r math hwn arnoch i chi gyflawni eich gweithgaredd, cysylltwch â mcollinson@sirgar.gov.uk am help i'ch cyfeirio at gyllid/llyfrgelloedd offer ac ati.

2/. Bydd angen i chi hefyd sicrhau bod 100 o arolygon Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn cael eu llenwi . Bydd hyn yn ein helpu i feithrin gwell dealltwriaeth o ddiddordebau ac agweddau pobl leol, sy'n ymwneud â'u cymuned a'r amgylchedd naturiol a bydd yn cefnogi datblygiad prosiectau Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn Sir Gaerfyrddin yn y dyfodol.

Ein nod yw ymgysylltu â demograffig eang, felly hoffem i sefydliadau (fel chi) estyn allan at eich gwirfoddolwyr a'ch buddiolwyr - i gael eu barn *ac* iddyn nhw gasglu barn eu cyfoedion/teulu/cymdogion ac ati.